# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf, 2022

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr: J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy ac S.D. Perkes

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro) a V. John (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

## 113 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 114 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr S. Campbell ac M.J.G. Morgan; G. Doyle a H. Smith (Cynrychiolwyr o’r Gweithgor Tenantiaid / Panel).

## 115 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

## 116 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

## 117 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/2 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 9 Mehefin 2022 gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau i'r Pwyllgor. Roedd gan y Cyngor, fel rhan o

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol mewn lle ar gyfer diogelu plant ac oedolion oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor, mewn cydweithrediad â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o'r gweithgareddau Diogelu Corfforaethol a gynhaliwyd ar draws yr Awdurdod Lleol, fel:

- Datblygu cyfres o weithdrefnau diogelu cenedlaethol dan arweiniad Cyngor Bro Morgannwg drwy Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Gweithredwyd y rhain o fis Tachwedd 2019. Roedd y gweithdrefnau hyn ar gael i'r Aelodau, yn ddigidol trwy 'ap' y gellid ei lawrlwytho ar ffôn clyfar. Byddai Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn ymchwilio i sut y gallai'r Aelodau lawrlwytho'r rhaglen ar eu dyfeisiau corfforaethol.
- Roedd y Cyngor, trwy ei Adran Adnoddau Dynol, wedi gweithredu system Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) electronig a fyddai'n cyflymu proses wirio'r GDG sy'n rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer staff newydd y Cyngor y mae angen iddynt eu cael fel rhan o'u rôl.
- Cyfeiriwyd at y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Ranbarthol a'i gofyniad i sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn erbyn ei hamcanion cyffredinol y cytunwyd arnynt. Er enghraifft, cyflwynwyd 363 o achosion Cynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (CAAAR) mewn cyfarfod amlasiantaethol er mwyn trafod materion diogelu i ddioddefwyr cam-drin domestig a oedd wedi'u hasesu fel risg uchel yn ystod 2021/22 a defnyddio cyfarfodydd dwywaith yr wythnos, trafodaethau amlasiantaethol â'r nod o wella mesurau diogelu drwy gynnig cymorth yn gynharach ac ymyrraeth.
- Gan gyfeirio at Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDCau), amlinellwyd gwasanaeth Cydlynwyr Atgyfeirio ac Asesu Cam-drin Domestig (CCACD) y Fro i'r Aelodau, gan esbonio ei wreiddiau a'i rôl wrth ymdrin ag achosion lefel isel a chanolig o gam-drin domestig er mwyn helpu i atal gwaethygu pellach. Roedd y niferoedd wedi lleihau o'r flwyddyn flaenorol, oherwydd penderfyniad Heddlu De Cymru i beidio â rhannu HDCau heb ganiatâd gyda'r CCACD mwyach.
- Cyfeiriwyd hefyd at waith gwella diogelwch eiddo, a oedd yn sicrhau lloches ddiogel i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais yn eu cartrefi, h.y., gan ddefnyddio teledu cylch cyfyng, ac ati. Yn ystod 2021/22, cafodd diogelwch 116 o eiddo ym Mro Morgannwg ei wella. Gallai hyn, mewn rhai achosion, ddarparu gwasanaeth mwy effeithiol na darpariaeth lloches (os caiff ei asesu'n fwy effeithiol na llety lloches ac yn amodol ar anghenion y dioddefwr).
- Amlinellwyd effaith COVID-19 ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau, ond pwysleisiwyd bod gweithgarwch diogelu wedi parhau yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed o fewn cymunedau'r Fro er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u diogelu. Er enghraifft, oherwydd yr angen i gyfyngu ar ymweliadau â chartrefi, roedd staff y Cyngor wedi cynnal dros 1,200 o archwiliadau lles dros y ffôn gydag aelwydydd agored i niwed er mwyn gwirio eu lles a nodi unrhyw achosion o bryder. Roedd yr angen i nodi cymorth ar gyfer bobl agored i niwed a thenantiaid yn gyffredinol ac i'w dargedu atynt hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy brosiect Proffilio Tenantiaid newydd.

- O ran arferion diogelu, hyfforddwyd pob aelod o dimau'r Gwasanaethau Tai ac Adeiladau i'r lefel priodol. Roedd yr hyfforddiant hwn hefyd yn cynnwys staff rheng flaen, fel staff cynnal a chadw, a aeth i gartrefi tenantiaid y Cyngor. Ar ben hynny, roedd uwch reolwyr o fewn y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau yn rhan o'r trefniadau diogelu rhanbarthol, gan gynnwys adolygiadau ymarfer oedolion a CAAAR.
- Gwnaeth y Gwasanaethau Tai gyflwyno nifer sylweddol o Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaethol (FfAA) ac atgyfeiriadau Diogelu Oedolion, yn ogystal â chynnal asesiadau diogelu i bawb a aeth i hostel a llety dros dro a hefyd ddarparu gwasanaethau cofleidiol i'r bobl hynny fel rhan o'r mesur tai dros dro a roddwyd ar waith oherwydd COVID-19.
- Roedd y Cyngor hefyd yn edrych ar y cynnydd mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG), yn enwedig yn sgil gwyliau ysgol yr haf, lle gwnaeth weithredu dull amlasiantaethol ac annog gweithgareddau a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn diogelu pobl ifanc, yn ogystal â gweithredu 'Panel Sianel' amlasiantaethol rhanbarthol parhaus Caerdydd a'r Fro ar ddiogelu unigolion rhag terfysgaeth a'u rhwystro rhag ymwneud â hi.

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) hefyd i'r Pwyllgor y gwaith diogelu allweddol a wnaed yn ei gwasanaeth ac o fewn cylch gwaith y Pwyllgor:

- O ran gwaith diogelu, cafodd hyn ei wneud gan dimau bychan iawn ond er hynny cafwyd effaith fawr ar drigolion y Fro a'r ardaloedd eraill yr oedd y GRhR yn gweithredu ynddynt.
- O ran diogelu oedolion hŷn ac agored i niwed, roedd y GRhR wedi delio â nifer sylweddol o achosion o Droseddau a 'Sgamiau' Stepen Drws yn targedu trigolion hŷn / agored i niwed yn y rhanbarth, yn aml roedd hyn wedi arwain at golledion ariannol sylweddol, gyda'r GRhR yn ymyrryd yn y rhain a sicrhau tua £13,000 mewn iawndal i'r dioddefwyr, tra'n cynnig cymorth hefyd. Roedd heriau sylweddol o ran delio â'r mathau hyn o dwyll a throsedd, gan gynnwys amharodrwydd pobl i gyfaddef eu bod wedi dioddef twyll.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth trigolion o sgamiau a thwyll, roedd y GRhR wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid yr Heddlu o ran hyfforddiant, tra bod meddygfeydd a fferyllfeydd wedi cael deunydd codi ymwybyddiaeth o sgamiau a thwyll newydd i'w arddangos yn eu hardaloedd aros, ac ati. Wrth symud ymlaen, roedd y GRhR yn gobeithio cydweithio gyda barbwyr a siopau trin gwallt hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth yn yr un modd ac i helpu pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath.
- Roedd y GRhR hefyd yn rhan o'r gwaith o osod 'blocwyr galwadau' i atal galwadau sgam, maleisus a niwsans i drigolion; amcangyfrifwyd eu bod wedi blocio o leiaf pum galwad o'r fath y dydd i ffôn unigolyn.
- Roedd y GRhR hefyd yn ymwneud â diogelu pobl ifanc drwy fesurau gorfodi a chydymffurfio o ran monitro ac atal gwerthu i bobl dan oed dybaco, alcohol a chynhyrchion anadlu nicotin fel e-sigaréts, a'u fersiynau nad ydynt yn cydymffurfio, a oedd wedi arwain at atafaeliadau sylweddol (roedd y GRhR hefyd wedi gweithio ar y cyd â rhaglen 'X-Ray' y BBC o ran hyn).

- Roedd y GRhR hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaeth i'r Fro o ran trwyddedu gyrwyr tacsis. Roedd y mwyafrif llethol o yrwyr tacsi yn ddibynadwy, ond, ac er mwyn diogelu trigolion agored i niwed, roedd y GRhR wedi cyfeirio pedwar achos yn ymwneud â gyrwyr tacsis trwyddedig i Bwyllgorau Trwyddedu'r Fro yn ystod 2021/22 yn dilyn euogfarnau am wahanol droseddau neu am ymddygiad amhriodol honedig.

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau hefyd at rwymedigaethau cyfreithiol a statudol staff y Cyngor ac Aelodau Etholedig o ran diogelu a'r gofyniad posibl i'r Aelodau Etholedig gynnal gwiriadau GDG os oes angen (h.y. gweithgareddau'n cynnwys plant ac oedolion agored i niwed), yn ogystal â gallu'r Aelodau i fwydo unrhyw bryderon diogelu i'r Grŵp Diogelu Corfforaethol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- O ran ymholiad y Cynghorydd Aviet ar sut i roi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â 'siarcod benthyg arian' a thebyg i'r Awdurdod Lleol, esboniwyd y gallai hyn gael ei wneud drwy Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru (UBAAC), oedd yn cael ei chynnal gan GRhR. Byddai Pennaeth y GRhR yn rhannu ei manylion cyswllt gyda'r Aelodau a byddai gwefan newydd UBAAC ar gael yn fuan a fyddai'n gwella hygyrchedd ac yn codi ei phroffil.
- Cododd y Cynghorydd Ball ymholiad ynglŷn â phobl oedd mewn perygl uchel o gam-drin domestig ac a oedd yn aros mewn llety dros dro - oedden nhw'n cael cynnig gwaith gwella diogelwch eu heiddo a sut oedden nhw'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer llety parhaol. Esboniwyd bod gwaith wedi'i wneud gydag Atal y Fro sef sefydliad y trydydd sector oedd yn rhoi arweiniad a chyngor pwrpasol penodol i gleientiaid a gafodd eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. O ran llety dros dro, byddai'r Cyngor yn asesu risg er mwyn gweld os mai hwn oedd y llety mwyaf priodol. Roedd llety mewn llochesau hefyd ar gael ond roedd ganddyn nhw leoedd cyfyngedig ar gael yn y Fro a gweddill Cymru. Roedd polisi dyrannu tai'r Cyngor (a Deddf Tai Cymru) hefyd yn blaenoriaethu'r bobl hynny y cadarnhawyd eu bod yn destun cam-drin domestig neu drais waeth a oeddent yn ddigartref neu â llety.
- Cododd yr Is-gadeirydd yr ymholiadau canlynol:
  - O ran a fyddai'r hyfforddiant a oedd gan staff y Cyngor neu y byddent yn ei wneud o ran 'Gofyn a Gweithredu' (er mwyn nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) hefyd yn cael ei ymestyn i'r Aelodau Etholedig, esboniwyd y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gyda'r Cydlynydd Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol i weld pryd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau Etholedig a byddai unrhyw ddiweddariad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor.
  - O ran yr 80 o bobl oedd yn dal i gael eu hystyried yn ddigartref / yn llety Gwely a Brecwast, ac a oedd unrhyw ddadansoddi o ran rhyw neu oedran wedi'i wneud, esboniwyd bod y mwyafrif yn ddynion dan 40 oed. Y flaenoriaeth oedd gosod y bobl hyn mewn darpariaeth llety amgen ac ehangu'r stoc tai fel y byddai'n seiliedig yn fwy ar lety un ystafell wely a lle bo angen, dai pwrpasol i helpu gydag anghenion cymorth allweddol

er mwyn helpu i leddfu'r mater hwn ac i atal dychweliad i gysgu ar y stryd fel y gwelwyd cyn COVID-19, er bod y tir sydd ar gael yn parhau'n her.
  - O ran a oedd gan y GRhR gynlluniau i dargedu'r defnydd dan oed o welyau haul, dywedwyd y byddai'r GRhR yn ymgysylltu â pherchnogion safleoedd gwelyau haul er mwyn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau ynghylch y mater hwn. Ymdrinnid ag unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio a phe bai angen, byddai 'prynu prawf' yn cael ei ddefnyddio.
- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes:
  - A oedd mwy o adroddiadau wedi bod am drais domestig yn ystod y cyfnod clo ac ar anterth pandemig COVID-19. Esboniwyd bod y niferoedd wedi gostwng mewn gwirionedd ac nad oeddent wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny. Y gred oedd bod hyn o ganlyniad i alluogi pobl i gael ymyriadau a chymorth ar gyfer cam-drin domestig, ac ati trwy ddulliau amgen yn ystod y pandemig h.y. y gallu i roi gwybod am y rhain mewn meddygfeydd, fferyllfeydd, ac ati.
  - O ran y materion parhaus yn ymwneud â chael caniatâd ar adeg y digwyddiad i alluogi rhannu gwybodaeth drwy HDCau, yr ymateb oedd bod y Cyngor yn gweithio'n galed gyda Heddlu De Cymru er mwyn ailedrych ar eu gweithdrefnau er mwyn gallu rhannu pob HDC a gwybodaeth hanfodol â'r CCACD.
- Gofynnodd y Cynghorydd Buckley:
  - A fyddai modd cyflwyno'r wybodaeth a roddir gan y GRhR am godi ymwybyddiaeth o dwyll a sgamiau ar y sgriniau teledu / gwybodaethol mewn rhai meddygfeydd. Mewn ymateb, roedd hyn yn awgrym da ac yn rhywbeth y gellid edrych arno o ran codi ymwybyddiaeth trigolion o dwyll ac ati.
  - O ran yr offer blocio galwadau, gallai trigolion brynu hyn yn breifat pe na baen nhw'n gallu ei gael trwy'r GRhR neu'r Cyngor. Esboniwyd mai prif fantais y GRhR yn gosod offer blocio galwadau i drigolion (yn hytrach na thrigolion yn prynu a gosod offer blocio eu hunain) oedd y byddai'r trigolion hynny a gafodd eu targedu dro ar ôl tro hefyd yn elwa o fathau eraill o gymorth y gallai'r GRhR ei roi. Yn ogystal, roedd yr offer blocio galwadau'n ddrud, ond roedd y GRhR wedi cael arian er mwyn prynu mwy ohono er mwyn ateb y galw gan drigolion amdano'n well. Yr hyn oedd ei angen wrth symud ymlaen hefyd oedd adolygiad o'r offer blocio galwadau a oedd eisoes wedi'i osod ar gyfer trigolion ac i weld a fyddai modd ailddefnyddio neu ailgylchu'r offer os nad oedd ei angen mwyach, yn ogystal ag edrych i gynyddu'r stoc offer blocio galwadau.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hanks at y gostyngiad mewn ymweliadau â chartrefi a'r defnydd o ymgynghoriadau dros y ffôn yn hytrach a gofynnodd a fyddai'r sefyllfa hon yn newid nawr. Esboniwyd y byddai dull 'hybrid' yn cael ei ddefnyddio gan ymgorffori manteision defnyddio technoleg a galwadau ffôn gyda'r manteision parhaus o gael ymweliadau a sgyrsiau wyneb yn wyneb ar gyfer materion na ellid eu cyfleu'n rhithwir. Hefyd, byddai darparwr cymorth tai'r Cyngor, POBL, yn agor eu gwasanaeth wyneb yn wyneb yn swyddogol yn Heol Holltwn, y Barri yn fuan iawn.
- O ran cwestiwn y Cynghorydd Hennessy ar effeithiolrwydd a chyfranogiad Cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth lleol wrth atal ymddygiad

gwrthgymdeithasol, roedd y Cyngor a'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn eiriolwyr gwych dros gynlluniau o'r fath ac yn cyfarfod â'u cydlynwyr yn rheolaidd ac yn cefnogi eu gweithgareddau. Oherwydd COVID-19, roedd cymdogaethau a chymunedau wedi dod ynghyd ac roedd y cynlluniau gwirfoddol hyn wedi helpu'n sylweddol gyda diogelwch cymunedol yn ystod y cyfnod hwn.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad, yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddynt

ARGYMHELLWYD – NODI Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

118 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

Diben yr adroddiad, a amlinellwyd gan Reolwr Gweithredol Cyfrifeg, oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2022, yn enwedig y meysydd hynny o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Roedd dull newydd wedi ei roi ar waith o ran yr adroddiad, drwy edrych ar y penawdau / themâu allweddol cyffredin a welir ym mhob rhan o’r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn ond hefyd i barhau i edrych ar feysydd penodol o gylch gwaith y Pwyllgor. Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd yn cynnwys:

- O ran refeniw, roedd pwysau yn dod i'r amlwg yn ystod 2022/23 yn ymwneud â thaliadau ynni, chwyddiant cyffredinol yn enwedig mewn meysydd fel trafnidiaeth ysgol a chostau byw a phwysau staffio ar draws gwasanaethau a byddai angen eu monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn ariannol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r arian COVID-19 gan Lywodraeth Cymru wedi dod i ben yn 2021/22 ond roedd swm gweddilliol bach o ariannu wedi parhau yn 2022/23 gan gynnwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, rhai elfennau o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw daliadau hunanynysu oedd yn weddill.
- O ran tai a dull y Cyngor o ymdrin â digartrefedd fel rhan o COVID, roedd y broses o brynu llety dros dro ymlaen llaw yn parhau, er bod llai o arian yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru bellach, ac roedd y Cyngor yn symud i ffwrdd o drefniadau o'r fath (h.y. i leihau'r ddibyniaeth ar lety gwesty ar gyfer cleientiaid digartref).
- O ran yr arian grant ar gyfer cynlluniau nawdd Wcráin, roedd y trefniadau ar gyfer y rhain yn dal i gael eu cwblhau. Ond roedd y Cyngor ymhell ar y gweill wrth wneud taliadau arian parod i bobl yn cyrraedd o Wcráin ac ar fin dechrau rhoi taliadau £350 i'w lletywyr ym Mro Morgannwg.
- Er ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, rhagamcanwyd y byddai’r gwasanaethau yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn ag alldro ar gyllideb. O ran y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid, Tai Preifat, y Gwasanaethau

Rheoliadol, Tai'r Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), nid oedd unrhyw orwario yn cael ei ragweld ar hyn o bryd, er y byddai angen i'r Cyngor barhau i adolygu hyn oherwydd y pwysau amrywiol a amlinellwyd yn gynharach.

- O ran targedau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer gwasanaethau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23, roedd y rhain yn cynnwys £6k ar gyfer Tai'r Gronfa Gyffredinol a £1k ar gyfer Tai Preifat.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau i siarad ac roedd am ychwanegu bod ganddo gyfrifoldeb cyllidebol am rai o'r meysydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac y byddai'n monitro'r rhain yn agos ac yn delio ag unrhyw faterion neu heriau a gododd, h.y. chwyddiant yn cynyddu. Roedd hefyd yn awyddus i glywed gan y Pwyllgor Craffu unrhyw awgrymiadau ac argymhellion oedd ganddo i'r Cyngor o ran arbed arian neu gynhyrchu incwm.

Wedi hynny, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a geir ynddo, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refinew 2022/23 yr Awdurdod, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

119 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Reolwr Gweithredol Cyfrifeg y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1. Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod. Roedd y pwyntiau a'r penawdau allweddol a godwyd yn cynnwys:

- Roedd lefelau uchel o chwyddiant yn effeithio ar gostau adeiladu i'r Cyngor, yn enwedig ar gost deunyddiau yn ogystal â'r effaith oherwydd prinder sgiliau proffesiynol. Roedd hyn wedi arwain at dendrau'n dod yn ôl dros y gyllideb gyda'r angen i'w haildendro, i'w hailgynllunio neu i gael mwy o arian ar eu cyfer. Roedd y Cyngor hefyd wedi profi amseroedd arwain hir wrth gael deunyddiau penodol.
- O ran Rhaglen Gwella Tai 2022/23, roedd hyn yn cynnwys y cynllun 'ôl-ffitio gwres' oedd â tharged uchelgeisiol a heriol y gallai fod angen ei ddiwygio yn ystod 2022/23 er mwyn adlewyrchu gallu'r Cyngor i'w fwrw oherwydd pwysau chwyddiant a'r prinder sgiliau y cyfeiriwyd ato eisoes.
- Ynglŷn â'r grant GALLUOGI (i helpu pobl hŷn, anabl, ac agored i niwed i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain), roedd y Cyngor wedi cael £202k, gyda £40k o'r grant yn gysylltiedig â chodiad, yn achos dileu profion modd. Roedd y Cyngor yn derbyn yr arian craidd yn unig ar hyn o bryd tan

yr adolygiad o'r system profion modd ar ddechrau’r flwyddyn nesaf. Felly, dim ond £161k roedd y Cyngor wedi’i dderbyn i’w ariannu gan grant gan Lywodraeth Cymru ar yr adeg hon, trwy'r Rhaglen Gyfalaf, nes i'r adolygiad uchod gael ei gynnal.

Yn dilyn cyflwyno’r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a’r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Roedd gan y Cynghorydd Hanks ymholiad ynglŷn â’r 12 cerbyd trydan yr oedd y Cyngor wedi’u prynu i gymryd lle’r 12 cerbyd disel sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd o fewn y fflyd ceir cronfa. Gofynnodd faint o gerbydau oedd yn y fflyd ar hyn o bryd a gyda'r cynnydd yn nifer staff y Cyngor yn gweithio gartref neu drwy ddull mwy 'hybrid', faint o gerbydau roedd y Cyngor yn rhagweld y bydd eu heisiau yn y dyfodol. Esboniwyd bod tua 40 o gerbydau yn y fflyd ceir cronfa ar hyn o bryd, ond byddai'r nifer hwn yn cael ei gadarnhau, a byddai’r Pwyllgor yn cael gwybod amdano. O ran y defnydd cynyddol o gerbydau trydan gan y Cyngor, roedd yn bwysig bod yr isadeiledd angenrheidiol yn cael ei roi ar waith i wneud yn siŵr y gellid eu gwefru a'u defnyddio'n effeithiol. Ar hyn o bryd roedd mesurau dros dro wedi'u rhoi ar waith i wefru’r cerbydau trydan presennol oedd yn cael eu defnyddio, nes bod pwyntiau gwefru parhaol wedi'u gosod yn yr Alpau a'r Swyddfa Ddinesig, trwy ddull graddol. Byddai'r pwyllgor yn cael gwybod am yr union ddyddiad cau a thargedau ar gyfer y trosglwyddiad graddol hwn i gerbydau trydan. Ymhellach, roedd adolygiad o’r defnydd o geir cronfa a'r nifer ohonynt sydd eu hangen, yn sgil y newidiadau i drefniadau gwaith a ffyrdd o weithio, staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain mewn rhai achosion a'r cynnydd mewn costau tanwydd yn ogystal â'r effaith ar staff gofal cymdeithasol a oedd angen defnyddio ceir, yn cael ei gynnal. Byddai'r defnydd mwy o gerbydau trydan gan y Cyngor fel rhan o'i ymgyrch tuag at fod yn garbon niwtral hefyd yn cael cymorth drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru.
- Gofynnodd y Cynghorydd Buckley am y posibilrwydd o ddefnyddio cerbydau wedi eu pweru gan hydrogen o fewn fflyd y Cyngor. Roedd hyn yn cael ei ystyried, yn enwedig mewn perthynas â cherbydau mwy a ddefnyddir gan y Cyngor, h.y. cerbydau gwastraff ac ailgylchu. Fodd bynnag, roedd hon yn dechnoleg ifanc o hyd ac felly byddai'n nod tymor hwy, a byddai'r Cyngor yn monitro’r broses o ddatblygu a gweithredu'r dechnoleg a’r diwydiant hydrogen.

Wedi hynny, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a geir ynddo, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI’r defyndd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) o’r adroddiad.

(3) NODI'r defyndd o Bwerau Argyfwng fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) BOD y newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn Argymhelliad (4) o'r adroddiad, yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhalen Gyfalaf, y defnydd o o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

120 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CAT) –

Amlinellodd yr adroddiad ar berfformiad, a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladau, gynnydd y Cygor yn Chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2022) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol. Bwriad y cyflwyniad atodedig oedd rhoi trosolwg i'r Aelodau o berfformiad diwedd blwyddyn yn gynharach yn y flwyddyn galendr. Roedd y penawdau allweddol yn cynnwys:

- Ar y cyfan, roedd hon yn stori newyddion dda i'r Cyngor –
  - Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried yr heriau parhaus sy'n deillio o'r pandemig.
  - Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 89% (287 allan o 321) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter. Priodolwyd statws Coch i 11% (34) o'r gweithgareddau a gynlluniwyd. O ran y gweithgareddau â statws Coch, roedd rhai o'r rhain yn uniongyrchol o ganlyniad i bandemig COVID ac eraill yn ymwneud ag ail-flaenoriaethu gwasanaethau mewn ymateb i effaith y pandemig parhaus, ymhlith ffactorau eraill.
  - Roedd cynnydd mewn perthynas ag adfer o'r Coronafeirws hefyd yn yr adroddiad hwn ar berfformiad i'r Pwyllgor gan gynnwys materion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. O ran adfer o'r Coronafeirws, roedd symudiad i gyfnod diwedd y Coronafeirws ac adfer nawr ond gyda'r 'don' barhaus mewn achosion COVID-19 yn dal i gael ei monitro.
  - O'r 149 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 67 o fesurau lle'r oedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 72% (48) ohonynt, statws Ambr i nifer gymharol fach ohonynt sef 7% (5), a statws Coch i 21% (14) ohonynt.
  - Mewn perthynas â'r gweithgareddau a gynlluniwyd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 92% (34 allan o 37) a statws Coch i 3 (8%).

  - O'r 18 o fesurau a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 67% (12), statws Oren i 22% (4), a statws Coch i 11% (2).
- Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at y canlyniadau ar 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol a gweithgareddau dan gylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel -
  - Roedd gwaith monitro tensiynau cymunedol wedi'i wella.
  - Roedd y Cyngor wedi cwblhau ei addewidion o ran teuluoedd Syria ac Affganistan a dan y cynllun rhanbarthol a oedd ganddo gyda Chaerdydd, parhaodd i gefnogi gwesteion o'r fath yn ei lety.
  - Rhoi hyfforddiant i drigolion a gwirfoddolwyr i fod yn 'Hyrwyddwyr Digidol' a chefnogi pobl i gael gwaith a hyfforddiant.
  - Roedd 329 o denantiaethau wedi'u cynnal dros chwe mis ar ôl cael Cyngor Ariannol a chymorth targedig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tenantiaethau'r Cyngor.
  - O ran gwella diogelwch eiddo i ddioddefwyr cam-drin domestig, dywedodd 100% o'r dioddefwyr eu bod yn teimlo'n fwy diogel wedi i'r Cyngor gyflwyno mesurau diogelwch ychwanegol yn eu cartrefi.
  - O ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, roedd cyfran uchel o'r bobl a gafodd grant yn fodlon bod yr addasiadau hynny yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi.
  - Roedd 97% o'r sefydliadau bwyd yn cydymffurfio i raddau helaeth â'r safonau hylendid bwyd.
  - Darpariaeth barhaus gan y Cyngor a gwirfoddolwyr amrywiol gynlluniau bwyd o ran ansicrwydd bwyd a gwasanaethau cysylltiedig h.y. ym Mhod Bwyd Penarth.
- O ran eithriadau perfformiad, roedd nifer o'r rhain yn cael sylw, h.y. roedd y gwaith o weithredu'r Strategaeth Llety i Bobl Hŷn gyda Gofal, Gofal Barod a Chymorth yn cael ei symud ymlaen a byddai'n cael ei gwblhau yn y dyfodol agos. O ran llithriant y Rhaglen Datblygu Tai, roedd yr oedi wedi digwydd oherwydd COVID-19 ac argaeledd contractwyr a chyflenwadau ond roedd gwaith yn dal i fynd yn ei flaen neu'n ailddechrau eleni. O ran gwaith ar y safle i Sipsiwn a Theithwyr, roedd adroddiad yn cael ei ddrafftio a'i anfon i Lywodraeth Cymru. O ran gweithgarwch atal digartrefedd, roedd y Cyngor wedi bod yn un o'r Cynghorau oedd yn perfformio orau cyn COVID, ond parhaodd i gael ei effeithio gan y mesurau COVID oedd ar waith i Awdurdodau Lleol ail-gartrefu pob person digartrefedd beth bynnag.
- O ran ymateb parhaus y Cyngor i'r Coronafeirws a'i waith parhaus o adfer ohono, cyfeiriodd Pennaeth y GRhR at symud i ffwrdd o gyfnod 'ymateb' yr adferiad hwn, gan leihau'r gofynion sydd ar waith h.y. POD (Profi, Olrhain, Diogelu) a oedd wedi symud at dargedu lleoliadau risg uchel, torri cadwyni trosglwyddo, a chael staff yn ôl yn eu swyddi arferol. Fodd bynnag, roedd hefyd angen cynnal y sgiliau a'r galluoedd hynny o fewn y GRhR ar gyfer achosion o COVID-19 yn y dyfodol fel yn yr Hydref / Gaeaf.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan y Pwyllgor:

- Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy am y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol a chafodd y wybodaeth honno:
  - Am Brosiect Clinig Colcot (datblygu tai), roedd contractwr wedi'i nodi ar gyfer y gwaith hwn, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn ac am

rannau eraill o Raglen Datblygu Tai y Cyngor i'w chyflwyno i'r Pwyllgor hwn maes o law. Hefyd wedi'u hamlinellu oedd yr heriau yr oedd y datblygiadau hyn bellach yn eu hwynebu o ran prisiau deunyddiau chwyddedig ac ati, felly er ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, gallai fod effaith ar waith yn y dyfodol a / neu gallai fod angen cyfalaf ychwanegol er mwyn eu cwblhau dros y blynyddoedd nesaf.

- o Am y system TG tai newydd, bu cyfarfod bwrdd prosiect yn ddiweddar gyda'r contractwyr er mwyn datblygu a gweithredu datrysiad cwmwl ar gyfer system contractwyr cynnal a chadw tai a chyfleuster hunan-wasanaeth / adrodd ar-lein ar gyfer tenantiaid y Cyngor, dan ddull dau gam. Fodd bynnag, byddai tenantiaid yn dal i allu cyfathrebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn ogystal â rhoi gwybod am faterion, ac ati. Byddai'r system newydd hefyd yn helpu i ryddhau swyddogion tai fel y gallant weithio’n hybrid ac o bell yn fwy, gan olygu y byddent yn gallu mynd allan i weld mwy o gleientiaid a bod o fewn cymdogaethau a chymunedau'r Fro yn amlach.
- o O ran y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau carthffosiaeth amgen cynaliadwy ar gyfer preswylwyr yn Channel View, Marcroes a Croft John, Pen-marc, esboniwyd nad oedd y trefniadau carthffosiaeth presennol ar gyfer cymunedau gwledig mor fach yn addas at y diben mwyach, ond bod mesurau amgen yn ddrud iawn; ar hyn o bryd roedd y Cyngor e.e. yn gweithio drwy'r costau hyn gyda’r preswylwyr yn rhai o'r ardaloedd hyn, oedd yn berchen ar eu cartrefi ac a oedd, dan y cyfamod, yn gorfod cyfrannu at gostau carthffosiaeth a gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio (roedd tenantiaid y Cyngor yn yr ardaloedd hyn yn talu am hyn yn rhan o’u rhent) er mwyn gweld beth allen nhw fforddio ei gyfrannu i ddisodli'r hen drefniadau carthffosiaeth hyn.

- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y gwaith o ran y safle i Sipsiwn a Theithwyr ac at y ffaith bod y gymuned wedi tynnu'n ôl o'r ymgynghoriad cysylltiedig, gan ofyn beth y gellid ei wneud i'w hannog i gymryd rhan ynddo eto. Esboniwyd bod yr ymgynghoriad wedi ei ymestyn er mwyn i'r Cyngor gael trafodaethau mwy anffurfiol gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr berthnasol y tu allan i'r broses Asesu Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) ffurfiol. Fodd bynnag, roedd y gymuned yn wyliadwrus o gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ffurfiol oherwydd canfyddiadau allanol ohoni a sut y gallai'r asesiad effeithio ar ymateb y Cyngor i'w hanghenion. Er gwaethaf ymdrechion i ddefnyddio Gypsies and Travellers Wales fel cyfryngwr, ni fyddai'r gymuned yn cwblhau holiaduron yr asesiad. Byddai hyn yn amlwg yn effeithio ar allu'r Cyngor i lunio polisi oedd yn bodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr, heblaw am ddealltwriaeth flaenorol bod y gymuned am i lety fod ar ei thelerau ac am ddatblygu safle addas sy'n annibynnol o ddylanwad y Cyngor a byw'n heddychol gyda chymunedau cyfagos. Byddai'r Cyngor yn parhau i gadw mewn cysylltiad a chydweithio â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn ceisio sicrhau datrysiad, yn ogystal â gwneud archwiliadau rheoliadol o'r safle presennol dan sylw.
- O ran ymholiad y Cynghorydd Hanks ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn ymdopi â'r niferoedd cynyddol o denantiaid sy'n wynebu cael eu troi allan oherwydd dyledion ac ôl-ddyledion ar ôl ailddechrau’r broses o droi allan yn dilyn COVID-19, esboniwyd bod y Cyngor wedi rhagweld y byddai'r sefyllfa hon yn digwydd (a oedd hefyd wedi'i gwaethygu gan brisiau tai cynyddol) a

cheisiai'r Cyngor osod teuluoedd o'r fath yn ei lety dros dro yn ôl yr angen ond hefyd wneud ymdrechion helaeth i helpu i atal troi pobl allan o'u cartrefi fel hyn yn y lle cyntaf. Er enghraifft, defnyddio Cynllun Tenantiaeth gyda Chymorth y Fro i helpu tenantiaid i roi bondiau a rhenti i landlordiaid y sector preifat ymlaen llaw, cynllun prydlesu lleol a allai roi prydlesi mwy hirdymor i denantiaid o 3, 5, a 7 mlynedd, yn ogystal â rhaglen adeiladu tai ychwanegol y Cyngor ac edrych ar wahanol ffyrdd o ddenu mwy o landlordiaid preifat i weithio gyda'r Cyngor er mwyn darparu llety (h.y. drwy gynlluniau yswiriant tenantiaeth). Hefyd, roedd arian wedi'i roi er mwyn i'r Cyngor benodi Cydlynydd Ailgartrefu Cyflym er mwyn gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Cyngor ac asiantaethau i fynd i'r afael â digartrefedd. Lle bynnag y bo'n bosib, byddai'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda thenantiaid er mwyn mynd i'r afael â'u hôl-ddyledion er mwyn eu hatal rhag cael eu troi allan yn y lle cyntaf.

- Cododd y Cynghorydd Perkes y canlynol:
  - O ran y safle i Sipsiwn a Theithwyr a'r tir gyferbyn iddo yn Sili, esboniwyd bod y Cyngor yn berchen ar dir ymhellach i lawr o'r safle a byddai ymholiadau'n cael eu gwneud gyda chydweithwyr y Cyngor ynglŷn â'i addasrwydd fel safle amgen posibl i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr, er bod materion llifogydd yn yr ardal a allai effeithio ar ei hyfywedd fel safle amgen.
  - O ran y posibilrwydd o ddyblygu'r model llety 'modiwlaidd' dros dro a ddefnyddir yn Court Road yn y Barri mewn mannau eraill yn y Fro a phe gellid cael arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni hyn, esboniwyd bod y Cyngor yn edrych ar safleoedd 'parod' neu 'actif' posib yn y Fro lle gellid adeiladu llety modiwlaidd o'r fath yn gyflym. Roedd Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn siarad â Chyngor Caerdydd am ei adeiladau dros dro (oedd yn cynnwys llety o fath 'cynhwysydd') ac yn edrych ar gydweithrediad rhanbarthol ar gyfer adeiladau o'r fath. Fodd bynnag, y prif fater oedd argaeledd tir o hyd ac yn enwedig safleoedd 'tir llwyd', oherwydd yr heriau a'r amser a gymerir wrth orfod gosod carthion, prif bibellau dŵr a thrydan 'o'r dechrau' yn eu safleoedd 'maes glas' cyfwerth. Arhosodd y sefyllfa hon yn ddifrifol, yn enwedig gyda'r angen parhaus i gartrefu trigolion lleol a'r heriau o ran cartrefu pobl sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin. Byddai adroddiad yn ymwneud â safleoedd actif posib ar gyfer datblygu tai dros dro yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor maes o law.

Wedi hynny, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau a geir ynddo, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) NODI'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.